**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

161 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

162 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

163 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/22 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 9 Mehefin, 2022 gan y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Gweithwyr, oedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol isod:

- O ran camau diogelu ynghylch y modd y mae’r Cyngor yn recriwtio staff a’r Polisi Recriwtio Diogelach, yr oedd y rhain yn ystyriaeth hanfodol oherwydd nifer uchel o rolau’r Cyngor oedd yn golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus, a’u cefnogi. Oherwydd hyn, cynhaliodd y Cyngor nifer o wiriadau cyn y gallai staff ymuno (h.y. gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)). Fodd bynnag, ni fu modd cwblhau’r gwiriadau hyn cyn i’r staff ddechrau gweithio, oherwydd natur frys eu rôl neu oedi yn y broses. Golygodd hyn y gall fod angen cynnal asesiad risg er mwyn cael staff newydd yn eu swydd cyn cwblhau’r gwiriadau priodol, ond gyda chamau diogelu priodol, h.y. peidio â gweithio heb oruchwyliaeth gyda phlant neu oedolion bregus tra bod y gwiriadau hynny’n cael eu cynnal.

- O ran cyfraddau cydymffurfio â Pholisi Recriwtio Diogelach y Cyngor ar gyfer Dechreuwyr Newydd Corfforaethol ac Ysgolion am y cyfnod 1 Ebrill, 2021 tan 31 Mawrth, 2022; yr oedd hyn yn 93% ar gyfer pob penodiad (sef 37 digwyddiad o dorri), oedd wedi gostwng o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21. Penodwyd 538 o ddechreuwyr newydd trwy recriwtio Diogelach, oedd yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ffactor allweddol yma oedd effaith COVID-19 ar ysgolion, gyda mwy o absenoldebau a newidiadau i batrymau gwaith yn sbarduno mwy o recriwtio i lenwi'r bylchau hyn a sicrhau y gallai'r ysgolion ddal i redeg yn effeithiol.
- Wrth edrych ar gyfraddau cydymffurfio i Ddechreuwyr Newydd ysgolion yn unig, yr oedd y cyfraddau cydymffurfio yn gyffredinol yn dda iawn, ond gyda rhai eithriadau (h.y. 89% ym Medi 2021). Fodd bynnag, wrth edrych ar chwarter cyntaf 2021/22 o gymharu â 2020/21, dim ond 3 achos o dorri a fu, o gymharu ag 8. Gallai'r achosion hyn fod yn rhai technegol yn unig, e.e. ysgolion yn ail-gychwyn ar ddydd Gwener y tymor newydd, ond gan ei fod yn ddiwrnod HMS, ni fyddai unrhyw ddisgyblion yno. Byddid yn edrych ar hyn yn y dyfodol i weld a fyddai modd tynnu achosion technegol fel hyn allan o'r broses adrodd. Yn yr un modd, yr oedd cyfraddau cydymffurfio i Ddechreuwyr Newydd Corfforaethol yn gyffredinol yn uchel iawn, gyda dim ond 2 achos o dorri.
- Yr oedd torri rheolau cydymffurfio â recriwtio diogelach yn cael ei ystyried yn hynod ddifrifol, gyda'r unigolyn dan sylw yn cael ei hysbysu nad oedd ei g/wiriad GDG wedi ei gynnal, a'r pennaeth neu reolwr llinell perthnasol hefyd yn cael ei hysbysu, ar y cyd â'r asesiad risg priodol.
- Er bod cyfraddau cydymffurfio yn is na'r hyn a welwyd yn flaenorol, gellid priodoli hyn i raddau helaeth oherwydd y cynnydd mewn recriwtio a welwyd yn 2021/22, yn ogystal ag effaith rheolau cyfredol COVID-19 a'r pandemig yn gyffredinol, e.e. anawsterau cael gafael ar eirda unigolion am eu bod i ffwrdd gyda COVID.

Wedi ystyried y cyfeirio a'r adroddiad a'r holl faterion a'r oblygiadau ynddynt, aeth y Pwyllgor Craffu ymlaen i

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol: 2021/22.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gyda golwg ar gynnwys y geirda, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

164 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD CANLLAWIAU A CHYFARWYDDIADAU STATUDOL LLYWODRAETH CYMRU A WNAED O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000, MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 23 Mehefin, 2022 gan y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Democrataidd, a amlinellodd y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd yr ymateb drafft arfaethedig yn ddogfen dechnegol ond amrywiol iawn, yn ymdrin â meysydd allweddol megis Cyfansoddiad y Cyngor a'r canllaw cysylltiedig, yn ogystal â meysydd eang eraill fel rhan o'r ymgynghoriad, oherwydd bod hyn yn ddarn hanfodol a hollbwysig o ddeddfwriaeth. Yr oedd nifer o ddarpariaethau hefyd yn ymdrin ag amrywiaeth, ymwneud a chyfranogi yn y teulu llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn hyrwyddo hyn.
- Dros y 18 mis diwethaf, cafwyd nifer o adroddiadau cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon oedd wedi mynd trwodd i'r Cyngor llawn, y Cabinet ac ati e.e. ar drefniadau absenoldeb teuluol a chanllawiau interim ar gyfarfodydd aml-leoliad, yn ogystal ag ymgynghoriadau eraill megis y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.
- Yr oedd peth o'r gwaith yng nghyswllt y Ddeddf eisoes ar y gweill, a pheth wedi dod i rym llynedd, o fis Mai 2021 ymlaen, ond byddai'r rhan fwyaf yn dod i rym o 5 Mai eleni. Yr oedd hyn yn cynnwys cyflwyno Model o Gyfansoddiad newydd a chanllaw, trefniadau rhannu swydd, cynorthwywyr y Pwyllgor Gweithredol, a newidiadau i ddeisebau, e.e. darparu deisebau electronig.
- Yn anffodus, er bod y ddeddfwriaeth yn ei le, yr oeddem yn dal i ddisgwyl am gryn swm o ganllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru (LlC).
- Y terfyn amser am gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad i LlC oedd 22 Gorffennaf 2022.
- Yr oedd y gwaith i fwrw ymlaen â'r darpariaethau helaeth a manwl yn y Ddeddf yn cael ei oruchwylio gan weithgor swyddogion, gyda chynllun gweithredu yn gysylltiedig.
- Yr oedd trafodaethau yn cael eu cynnal ar lefel swyddogion ynghylch cael yr adnoddau i weithredu o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, a gofynion y canllawiau statudol arfaethedig.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson, fel Aelod o'r Pwyllgor ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, eisiau codi'r pwyntiau canlynol:

  - Yr oedd rhai materion pwysig iawn yn cael eu codi yn yr ymgynghoriad ynghylch digonoldeb adnoddau i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd. Yr oedd angen yn amlwg i sicrhau digon o adnoddau i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd Team er mwyn ymdrin â meysydd fel gwybodaeth ychwanegol, gwasanaethau ymchwil a chefnogi i'r holl Aelodau Etholedig er mwyn dal y Cabinet a'r Cyngor i gyfrif ac i drafod materion allweddol yn fwy effeithiol. Byddai hyn yn helpu i ymdrin â'r 'anghydbwysedd' presennol rhwng y gefnogaeth mae Swyddogion y Cyngor ar hyn o bryd yn ei roi i Aelodau'r Cabinet a'r hyn a roddir i Aelodau'r gwrthbleidiau a'r 'meinciau cefn' yn ogystal ag Aelodau Annibynnol y Cyngor.
  - Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, yr angen i bwysleisio pwysigrwydd peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn wahanol nac yn llai ffafriol na'r Saesneg, e.e., defnyddio cyfieithydd mewn cyfarfodydd hybrid, a

phwysigrwydd cyfranogi dwyieithog, mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf, fel Bro Morgannwg.

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards bwysigrwydd materion yn ymwneud ag amseru cyfarfodydd Pwyllgorau, hyfforddi a datblygu Aelodau, ac ati fel rhan o'r ymgynghoriad, er mwyn helpu i hyrwyddo amrywiaeth a hygyrchedd. Bu'n llesol iawn cynnal y gwahanol fathau o hyfforddiant cynefino a chyflwyno i Gynghorwyr newydd ar-lein, a da oedd gweld fod hyn hefyd yn cael ei drin fel rhan o'r ymgynghoriad. Yr oedd hefyd yn dda gweld yr ymateb ynghylch moeseg a safonau, a pha mor bwysig oedd i Aelodau newydd ddeall eu rhwymedigaethau. Holodd y Cynghorydd beth oedd yr amserlen o ran adborth gan Aelodau newydd ynghylch hyfforddi a datblygu, pan fod angen i ddrafft yr ymgynghoriad fynd yn ôl at LIC ar 22 Gorffennaf a bod ar ei ffurf derfynol erbyn yr hydref. Esboniodd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Democrataidd y byddid yn edrych ar yr arolwg am hyfforddiant a ddosbarthwyd yn yr hydref/gaeaf (a fyddai'n help i fod yn sail o wybodaeth i ddadansoddiad anghenion hyfforddi i Aelodau), gydag arolygon eraill ar y gweill am bethau fel amseroedd cyfarfodydd Pwyllgorau i ddigwydd yn y man.
- Yr oedd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Democrataidd am ychwanegu bod y Cyngor wedi darparu hyfforddiant trylwyr i Aelodau, (e.e. er mwyn sicrhau y gallai busnes allweddol megis pwyllgorau lled-farnwrol a chyfarfodydd Cabinet gychwyn mor fuan ag oedd modd) ond fod angen cydbwyso hyn gyda pheidio â llethu Aelodau newydd a chyfredol yn syth. Y Fro oedd un o awdurdodau lleol cyntaf Cymru i ail-gychwyn Pwyllgorau yn dilyn yr etholiadau lleol diweddar, yn ogystal â chyflwyno a chynefino Aelodau a rhoi cyfarpar TGCh newydd iddynt. Diolchodd i'r Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu a'i thîm am eu cefnogaeth wrth gyflwyno gweithgareddau'r Rhaglen Datblygu Aelodau hyd yma, yn ogystal ag am y gefnogaeth a roddir yng nghyfarfodydd Pwyllgorau.

Ategodd y Cadeirydd y sylwadau uchod a wnaed gan yr Aelodau, a chytunodd y bu'r hyfforddiant ar-lein a ddarparwyd gan Gyngor Bro Morgannwg yn drylwyr ac amserol.

Wedi ystyried y cyfeirio a'r adroddiad a'r holl faterion a'r oblygiadau ynddynt, aeth y Pwyllgor Craffu ymlaen i

ARGYMHELLWYD – Y dylid rhoi gwybod i'r Cabinet am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar yr Ymateb Drafft i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau a Chyfarwyddiadau statudol a wneir dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

- Yr angen i sicrhau adnoddau digonol i Dîm y Gwasanaethau Democrataidd fynd i'r afael â meysydd fel gwybodaeth ychwanegol, ymchwil a gwasanaethau cymorth i bob Aelod Etholedig er mwyn dwyn y Cabinet a'r Cyngor i gyfrif a thrafod materion allweddol mewn modd mwy effeithiol;
- Pwysigrwydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol nac yn llai ffafriol na'r Saesneg h.y. defnyddio cyfieithydd ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid a phwysigrwydd cyfranogiad dwyieithog;

- Pwysigrwydd adolygu amseroedd cyfarfodydd, cydbwysedd bywyd gwaith, amrywiaeth, adborth, hyfforddiant a datblygiad i Aelodau.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cabinet ystyried sylwadau a safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

165 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CAC) –

Yr oedd yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn rhoi manylion am ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei ymrwymiadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac yn bwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Dyma oedd ymateb y Cyngor i'r argyfyngau hinsawdd a natur a gyhoeddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg (ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac eraill). Byddai diweddariadau o'r fath yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio deirgwaith y flwyddyn fel rhan o'r gwaith craffu cyn mynd i'r cabinet.

Ymysg y pwyntiau allweddol a godwyd yr oedd:

- Yr oedd y Cynllun yn rhoi manylion am ddeunaw her ynghylch yr angen i ddangos arweiniad cryf (e.e., arwain trwy esiampl fel sefydliad), cyflawni ein cyfrifoldeb i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol (gan gynnwys meysydd lle gall y Cyngor helpu i lunio gweithgareddau eraill a thrwy ei bolisïau, y ffordd y gallai'r Cyngor ddylanwadau ar weithredoedd cyrff a phobl eraill) a gwneud gwahaniaeth yn awr (fel y meysydd lle mae gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol dros y ffordd mae'n gweithredu fel sefydliad, e.e., sut y mae'n defnyddio ei adeiladau).
- Nod cyffredinol Prosiect Sero oedd dad-garboneiddio gweithgareddau'r Cyngor erbyn 2030 ac yna cyfrannu at darged LlC o Gymru carbon sero erbyn 2050.
- Gwnaed gwaith gyda chyfres o grwpiau cymunedol, e.e. yn Llanilltud Fawr, Gwenfô a Phenarth, ynghylch Prosiect Sero a sut, gyda'i gilydd, y gellid cyrraedd yr uchelgais hwn ym Mro Morgannwg.
- Yr oedd gwaith hefyd ar y gweill i sicrhau fod pob datganiad i'r wasg gan y Cyngor yn cynnwys cyswllt â Phrosiect Sero ac yn dangos hynny'n glir, yn ogystal â chael arwyddion mewn mannau fel parciau gwledig.
- Yr oedd y Cyngor eisoes wrthi yn casglu data i'w gyflwyno i LlC ynghylch allyriadau carbon y Cyngor.
- Yr oedd mwyafrif helaeth allyriadau carbon y Cyngor o fewn eu cadwyn gyflenwi, a hyn wedi arwain at arolygu strategaeth gaffael y Cyngor, a nodi cyfleoedd i herio'r defnydd o garbon mewn gwahanol feysydd caffael.
- Ymhellach, byddai ymgynghori / adolygu yn digwydd ar y Cynllun / Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor, fyddai'n cynnwys gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn ogystal â defnyddio arian Adran 106 i gefnogi mentrau oedd yn cynnal yr agenda hwn hefyd. Dylid nodi hefyd y gwaith trwy Ddinas-Ranbarth Caerdydd oedd yn dal i gefnogi gwaith ar newid hinsawdd, gan gynnwys y cynlluniau ar

gyfer safle Aberddawan o ran ynni adnewyddol a chefnogi datblygu sgiliau gwyrdd yn y Fro.

- Mae allweddol arall oedd cynhyrchu a chael bwyd yn lleol i helpu'r amgylchedd, cefnogi'r economi leol a sicrhau bod trigolion y Fro yn bwyta'n iach ac yn dda. Yr oedd y Cyngor yn rhan o bartneriaeth Bwyd y Fro, oedd wedi ennill statws gwobr Efydd fel rhan o Rwydwaith Llefydd Bwyd Cynaliadwy.
- Yr oedd y Cyngor hefyd yn annog teithio llesol ac yn gwneud yn siŵr bod y seilwaith yn ei le i wefru cerbydau trydan, yn ogystal â chefnogi gweithgareddau heb fod yn gysylltiedig â defnyddio ceir preifat.
- Adroddwyd yn ddiweddar ar y Strategaeth Gwastraff deng-mlynedd i'r Cabinet, a byddid yn ymgynghori ar hyn dros yr haf. Byddai hyn yn annog mwy o ail-ddefnyddio ac ailgylchu, fel y gallai'r Cyngor leihau eto ar faint o wastraff gweddilliol fyddai'n mynd i'r system.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Franks am wybodaeth ychwanegol a manylion am y canlynol a oedd, yn ei farn efo, ond wedi eu crybwyll wrth fynd heibio yn yr adroddiad:
  - Datblygiad Gorsaf Bŵer Aberddawan. Esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n cael y wybodaeth ychwanegol angenrheidiol ynghylch datblygiad Aberddawan, gan gynnwys datganiadau ac am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y trafodaethau am y cynllun hwnnw, ar y ffurf gryno y gofynnwyd amdano.
  - O ran 'Big Fresh' ac union ystyr 'cafwyd yn lleol', yr oedd hyn yn golygu pwrcasu trwy gyflenwyr lleol, gan gynnwys cyfanwerthwyr a chynhyrchwyr. Un o fanteision cael Big Fresh, Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol, oedd yr hyblygrwydd o ran caffael yr eitemau hynny.
  - Beiciau OVO (e-feiciau), a chyfraddau defnydd, ac unrhyw ddigwyddiadau o gamddefnyddio'r gosodiadau hynny. O ran cyfraddau defnydd e-feiciau OVO ac ati, byddai'r Cyfarwyddwr yn gofyn i gydweithwyr yn y gwasanaeth trafnidiaeth i ddarparu'r data hwn.
  - Gosod paneli solar ffotofoltaidd yn ddiweddar gan y Cyngor, a'i gynllun am raglen waith at y dyfodol, i dargedu asedau sy'n defnyddio llawer o ynni. Am y paneli solar i ganolfannau cymunedol yn ddiweddar â Phrif Weithredwr Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg am hyn, oedd yn edrych ar hyn o safbwynt amgylcheddol a chwyddiant ynghylch defnydd o ynni. O'r herwydd, byddai'r Cyngor yn edrych i weld sut i wneud canolfannau cymunedol a grwpiau cymunedol eraill yn fwy cynaliadwy, fel ffordd o liniaru pwysau cost ynni yn y tymor canol i hir, yn ogystal â cheisio cyllid ychwanegol trwy LIC i ganolfannau cymunedol a redir gan grwpiau cymunedol ond ym meddiant y Cyngor er mwyn gweld a fyddai modd gosod ffynonellau cynaliadwy amgen o ynni.
- Holodd y Cynghorydd Carroll am statws yr arian wrth gefn i gefnogi cyflwyno Prosiect Sero. Er enghraifft, a ddefnyddiwyd unrhyw ran o'r cronfeydd hyn oherwydd pwysau ar y gyllideb neu bwysau eraill. Esboniwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor trwy gydweithwyr yn yr adran gyllid, a gofynnwyd am gynnwys y math hwn o wybodaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol am Brosiect Sero.

- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson y pwyntiau canlynol:
  - Er mai'r bwriad oedd i'r adroddiad fod yn fwy o grynodeb, yr oedd yn bwysig er hynny cael diweddariad manylach a fyddai'n hygyrch, yn enwedig i Aelodau newydd Pwyllgorau.
  - Yr oedd yn bwysig hefyd gweld pa gamau a gymerwyd hyd yma yn erbyn yr amcanion.
  - Fel y crybwyllwyd gan y Cynghorydd Carroll, byddai cynnwys yn yr adroddiad fwy o eglurder am y gwariant a neilltuwyd ac a wariwyd ar y prosiect yn llesol iawn o ran caniatáu craffu.
  - Ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, dylid cynnwys mwy o bwyslais ar y rhwystrau, risgiau a heriau newydd, yn ogystal â'r llwyddiannau neu'r gwaith a wnaed ar Brosiect Sero a'r cynnydd o ran ymdrin â hwy, mewn diweddariadau i'r Pwyllgor.
  - Gofynnwyd am fanylion pellach ynghylch y Bartneriaeth Natur Leol / Llefydd Lleol i Natur a 'mannau glas', gan gynnwys arfordiroedd, afonydd, ac ati yn y Fro, ac unrhyw waith sy'n cynnwys Prosiect Sero gyda'r rhain. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y gellid trefnu cyflwyniad am y Llefydd Lleol i Natur a'r Bartneriaeth Natur Leol mewn cyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio a/neu gynnwys adendwm gyda'r adroddiad cyn ei gyfeirio at y Pwyllgor hwnnw.
  - Gellid hefyd rhoi manylion pellach a sicrwydd am amserlen y gwaith ôl troed carbon oedd yn cael ei wneud ac a oedd hyn yn digwydd.
  - Defnyddio hyperddolenni neu ddulliau eraill o gyrchu'r adroddiadau cefndir a'r papurau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero, yn ogystal â'r cofnodion cysylltiedig, er mwyn olrhain gwneud penderfyniadau yn haws.
- Ategodd y Cadeirydd bwyntiau'r Cynghorydd Dr. Johnson uchod, a'r angen i ail-gyfeirio'r adroddiad at y dyfodol. Yr oedd y Cynghorydd Loveluck-Edwards hefyd yn teimlo y byddai'r defnydd o raddfa 'RAG' a ddefnyddid gan adroddiadau eraill a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu yn fuddiol ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol am Brosiect Sero a'i berfformiad, amserlenni, ac ati. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'r wybodaeth ychwanegol fyddai ei angen yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol, ac ar gyfer y meysydd perthnasol hynny, e.e. gwybodaeth ariannol, byddai'r rhain yn cael eu cynnwys mewn adendwm ac atodiadau pan fyddai'r adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet, a'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio.
- Holodd y Cynghorydd Wood y canlynol:
  - A oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i gyrraedd y targedau dad-garboneiddio erbyn y terfyn amser o 2030. Esboniwyd, er bod y cynllun cysylltiedig â Phrosiect Sero yn uchelgeisiol, yn gefn iddo yr oedd asesiad realistig o'r adnoddau y byddai ar y Cyngor angen i gyflwyno hyn, gan gynnwys buddsoddi yng Ngwasanaeth Ynni y Cyngor i asesu a dehongli'r data am allyriadau carbon yn fwy effeithiol a sbarduno gwybodaeth i gymunedau a gwaith ymwneud er mwyn cyrraedd nod y prosiect. Yr oedd y prosiect hefyd yn cael ei wylio a'i gyflwyno ar lefel gorfforaethol gan lawer tîm a gwasanaeth.
  - Faint o feincnodi oedd yn cael ei wneud yn erbyn Cynghorau eraill ynghylch mesurau a pherfformiad allyriadau carbon / camau dad-

garboneiddio, fel y gallai'r Cyngor gymryd agwedd adeiladol a 'strategol'. Esboniwyd, o ran y canlyniadau data am allyriadau carbon oedd yn cael eu hanfon at LIC, yr oedd gweithgor ar draws y sector cyhoeddus yn edrych ar y data hwn, oedd wedi ei dorri i lawr ar lefel awdurdod lleol hefyd, fel y gallai'r Fro ac awdurdodau eraill gymharu eu hunain yn erbyn eu cyfoedion. Yr oedd y Cyngor ac eraill yn defnyddio'r data hwn i ddysgu a rhannu'r 'arferion gorau' â'i gilydd.

- O ran lle y gallai'r Cynghorydd gael catalog o arferion gweithio neu gynlluniau fyddai'n helpu i gwrdd â dyheadau Prosiect Sero, esboniwyd bod y rhain yn dod dan Gynllun Her Hinsawdd a Chynlluniau Gwasanaeth y Cyngor.

Yna, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

(1) Y dylid nodi'r cynnydd a nodir yn yr adroddiad mewn perthynas â nifer o'r heriau yn y Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd.

(2) Y dylid rhoi gwybod i'r Cabinet am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar yr Adroddiad Diweddaru ar Brosiect Sero, sef:

- Dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol am y meysydd canlynol y mae'r adroddiad yn ymdrin â hwy:
  - Gorsaf Bŵer Aberddawan.
  - OVOBikes (e-feiciau).
  - Statws y cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gwaith o gyflawni Prosiect Sero (h.y. a ddefnyddiwyd arian o'r rhain, ac ati).
  - Ymgysylltu â'r Bartneriaeth Natur Leol a gwaith y Bartneriaeth mewn perthynas â Phrosiect Sero.
  - Unrhyw waith sydd i'w wneud o ran 'mannau glas' (h.y. afonydd, arfordiroedd a nentydd);

  a, lle y bo'n berthnasol, dylid cynnwys y wybodaeth uchod fel atodiad cyn i'r adroddiad gael ei gyfeirio at y Cabinet a Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio. Dylid ei hatodi hefyd at adroddiadau yn y dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol.

- Dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys y canlynol o ran ffocws a fformat:
  - Hyperddolenni neu ddulliau eraill o gael mynediad i'r adroddiadau cefndir perthnasol a'r papurau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero, yn ogystal â'r cofnodion cysylltiedig, er mwyn olrhain penderfyniadau yn haws.
  - Mwy o bwyslais ar y rhwystrau, y risgiau a'r heriau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â'r llwyddiannau neu'r gwaith a wnaed o ran Prosiect Sero ac ar y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r rhain.

- o Y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer datgarboneiddio ac a yw'r rhain yn cael eu bodloni, yn ogystal â defnyddio sgoriau 'COG' (Coch, Oren a Gwyrdd) ar gyfer gwahanol elfennau'r Prosiect.
- o Mwy o fanylion am agweddau ariannol ar y Prosiect hwn, h.y. diweddariad ar y cyllid a'r cronfeydd wrth gefn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Prosiect Sero.

(3) Y dylai'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad, gyfeirio'r adroddiad at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried gyda sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a'r Cabinet a chyfeirio unrhyw sylwadau pellach yn ôl i'r Cabinet.

(4) Y dylai'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol argymell i'r Cabinet y dylid dosbarthu'r adroddiad hwn i'r holl Aelodau etholedig, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried sylwadau a safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu.

(3) Er mwyn galluogi Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i ystyried yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a'r Cabinet.

(4) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

166 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a esboniodd y cymerwyd agwedd newydd o ran yr adroddiad, trwy edrych ar y penawdau / themâu allweddol a welir ar draws y Cyngor yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn o Chwarter 1 (Ch1) er mwyn deall cyd-destun llawn gwariant y Cyngor yn ogystal â pharhau i dynnu ar feysydd penodol o gylch gorchwyl y Pwyllgor. Ymysg y pwyntiau allweddol yr oedd:

- Yr oedd y Cyngor yn teimlo peth pwysau cychwynnol ar Wasanaethau Plant o ran lleoliadau a chostau cyfreithiol.
- Gwelwyd pwysau tebyg hefyd yng nghontract Gwasanaethau Hamdden y Cyngor a'r costau rhedeg a ddaeth i'w rhan, oedd yn clymu i mewn a chostau cyfleustodau cynyddol a chostau eraill a ddaeth i ran darparwr contact y Gwasanaethau Hamdden trwy gyfnod COVID. Fodd bynnag, dychwelyd i ryw fath o gyflwr normal gyda'r contract hwn.

- O ran pwysau chwyddiant, byddai'r rhain yn cael eu hasesu yn fwy trylwyr i baratoi am adrodd yn Chwarter 2 (Ch2).
- Parthed costau cyfleustodau cynyddol, yr oedd y Cyngor wedi amddiffyn ei hun trwy brynu nwy a thrydan ddwy flynedd ymlaen llaw. Fodd bynnag, gydag awdurdodau lleol eraill Cymru, yr oedd darparwyr ynni wedi newid / cynyddu eu taliadau sefydlog - fe allai hyn olygu cost o £300k, ond byddid yn gwybod mwy yn Ch2.
- O ran dyfarniadau cyflog am 2022/23, byddai trafodaethau maith yn cael eu cynnal ar y rhain, gyda phwysau yn dod o'r galw am gynnydd yn y cyflog byw, ac o ran graddfeydd / cyfraddau cyflog staff yn is i lawr.
- O ran sefyllfa ariannol a chyllideb y Cyngor a Chyfarwyddiaeth(au), yr oedd yn bwysig er mwyn rhoi golwg mor glir ag oedd modd i'r Pwyllgor o nifer yr adnoddau a rydd y Cyngor i'w feysydd a'i gwasanaethau allweddol, e.e., Budd-daliadau Tai, a cheisio hidlo allan ad-daliadau, ac ati, yn ogystal â gwneud gwybodaeth ariannol yn fwy hygyrch i Aelodau.
- Yng nghyswllt Adnoddau Corfforaethol, yr oedd pwysau gwaelodol yn dod i'r amlwg yn y gyllideb honno, oedd yn cael eu trafod gyda'r uwch-arweinwyr a'r rheolwyr perthnasol. Yr oedd hyn yn cael ei guddio i ryw raddau ar gan y lefel bresennol o swyddi gwag yn y maes gwasanaeth hwn, a byddai'n rhaid i'r gwasanaeth recriwtio yn y tymor hwy.
- Yr oedd adran Bolisi'r adroddiad ar hyn o bryd yn dangos safle niwtral.
- Roedd gan y Cyngor record dda ar adennill Treth y Cyngor; fodd bynnag, byddai'n rhaid cadw golwg fanylach ar y sefyllfa yn awr oherwydd yr argyfwng costau byw.
- Ar bwynt y Cynghorydd Carroll yn gynharach yn y cyfarfod, byddai adroddiadau refeniw yn y dyfodol yn cynnwys mwy o dryloywder am y cronfeydd wrth gefn a sut y tynnid ar y rhain trwy gydol y flwyddyn.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Pwysleisiodd y Cadeirydd y pwysau y byddai trigolion yn wynebu gyda chynnydd mewn costau bwyd a thanwydd, a sut y gallai hyn effeithio ar gasglu Treth y Cyngor yn y Fro at y dyfodol.
- Yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson eisiau tynnu sylw at y pethau pwysig a wnaeth y Cyngor o ran y cyflog byw gwirioneddol a phrydau ysgol am ddim i'r plant ieuengaf. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson hefyd y byddai'n fuddiol cael sicrwydd fod y cyllid a amlinellwyd mewn adroddiadau o'r fath i'r Pwyllgor yn seiliedig ar y wybodaeth orau oedd gan y Cyngor ar y pryd, oherwydd y byddai'r rhagolygon ariannol cychwynnol oedd fel arfer yn dangos mai cyllideb gyfyngedig fyddai gan y Cyngor, yn cael ar ddeall wedyn y deuai cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LlC) neu gronfeydd eraill hanner ffordd trwy'r flwyddyn. Esboniwyd y byddai'r Tîm Cyllid yn rhoi mwy o ddiweddariadau a manylion am ddefnyddio arian wrth gefn, adennill Treth y Cyngor ac arian LlC i'r Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn cael mwy o dryloywder. Hefyd, ni fyddai'r Cyngor yn wastad yn gwybod ymlaen llaw y deuai'r grantiau hyn iddynt gan LlC neu eraill. Byddai'r Cyngor hefyd yn lobïo LlC trwy wahanol sianelau i sicrhau bod y cyllid cywir yn cael ei ddarparu gan LlC. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd fod LlC yn

aml yn gorfod ymateb i wahanol faterion ac argyfyngau, felly nid oed modd iddynt hwy yn wastad roi rhybudd am arian ychwanegol mewn da bryd.

- Gofynnodd y Cynghorydd Carroll pa effaith a gâi cyfraddau llog uwch ar sefyllfa buddsoddi a benthyca'r Cyngor. Esboniwyd bod Gwasanaethau Trysorlys y Cyngor yn cael eu cefnogi gan ymgynghorydd trydydd-parti sy'n cwrdd â'r tîm yn fisol ar faterion o'r fath. Yr oed yn rhy gynnar i wybod sut y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn effeithio ar ystyriaethau ariannol / cyllidebol y Cyngor, ond yr oedd y Cyngor yn canolbwyntio ar y mater hwn.
- Tynnodd yr Is-Gadeirydd sylw at y diffyg mewn arbedion o Adnoddau Corfforaethol a gofynnodd a fyddai hyn yn cael ei adolygu petai swm y diffyg yn cael ei ystyried yn rhesymol. Esboniwyd y byddid yn ymdrin â'r diffyg hwn yn ystod y flwyddyn, ac felly ni fyddai'n rhaid dibynnu ar yr arbedion cysylltiedig a gynhyrchwyd gan swyddi gwag mewn Adnoddau Corfforaethol i helpu i gadw'r gyllideb yn wastad. Byddai'r tîm Cyllid yn adolygu'r cynllun ariannol tymor-canol ac yn edrych ar gael sylfaen gadarn at y dyfodol er mwyn ymdrin â'r problemau yn y gyllideb ac oherwydd ansicrwydd am swm setliadau ariannol yn y dyfodol gan LlC.

Yna, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refinew 2022/23 yr Awdurdod, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

167 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAC) –

Yr oedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Mai, 2022. Yr oedd manylion y cynllun yn Atodiad 1. Yr oedd yr adroddiad yn gosod allan unrhyw newidiadau oedd eu hangen i 2022/23 a'r Rhaglen Gyfalaf am y flwyddyn i ddod. Ymysg y pwyntiau allweddol i'r Pwyllgor ystyried yr oedd:

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 ei bod yn dal yn gynnar o ran monitro cyfalaf gan mai Ch1 oedd hwn. Y brif her i'r Cyngor oedd cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf, gyda £107.425m wedi ei gymeradwyo am 2022/23. Yr oedd y swm yn rhannol oherwydd llithriad o 2021/22; fel arfer, byddai'r Cyngor yn cyflwyno Rhaglen Gyfalaf of £60 – 70m yn unig. Her allweddol fyddai effaith chwyddiant ar gostau a phrisiau a thrwy hynny gadw cynlluniau cyfalaf o fewn y costiadau y cytunwyd arnynt.
- Yr oedd Swyddogion y Cyngor a Llinellau Gwasanaeth yn optimistig ar yr adeg hon ac ar ddechrau'r flwyddyn ariannol y buasent yn gallu cyflwyno'r cynlluniau hyn, ac yr oeddent felly'n amharod i ragfynegi unrhyw bosibilrwydd o beidio â chyflwyno cynlluniau yn Ch1 ar hyn o bryd.
- Nid oeddent ar hyn o bryd yn rhagweld y byddai gan y Cyngor fwy o lithriad yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai gan y Cyngor well dealltwriaeth o hyn

yn Ch2 a byddai Cyllid yn gweithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaeth er mwyn cael gwell trosolwg o gynnydd eu prosiectau cyfalaf, seiliedig ar y cwestiynau isod:

  - Pa bwysau chwyddiant oedd ar eu cynlluniau cyfalaf?.
  - A oedd y gweithiau cyfalaf hyn eisoes ar y safle?
  - A gytunwyd ar eich contractau ynteu ai ar fin tendro yr ydych?
- Un cynllun cyfalaf mawr i'w nodi oedd gweithredu'r system TG ariannol ac AD newydd (dan yr enw Oracle – i fynd yn fyw yn hydref 2022).

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at effaith mwy o lithriad o 2021/22 hyd at 2022/23 (yn ogystal â phroblem gyson tarfu ar gadwyni cyflenwi, ac ati) a gofynnodd pa mor hyderus oeddent fod gweithiau cyfalaf angenrheidiol, fel rhai ynghylch ysgolion, wedi mynd allan i dendr, wedi llwyddo, ac a fyddent yn debyg o ddigwydd dros fisoedd yr haf. Os na, pryd y byddai'r gwaith yn debyg o gael ei amserlennu a digwydd? Esboniodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 am y rhaglen cynnal ysgolion, fod y newyddion yn gyffredinol yn dda, gyda chontractau wedi eu cytuno am y rhan fwyaf o'r gwaith, ac y byddid yn gwneud cryn dipyn o waith yn ystod yr haf.
- Holodd y Cynghorydd Wood a oedd unrhyw gynnydd dangosol mewn costau, yn enwedig am y contractau hŷn hynny oedd wedi codi o 20% i 30% mewn rhai achosion, a'i fod yn pryderu y gallai costau rhai o'r rhain fod yn uchel iawn, ac na fyddai'n hawdd ei 'trin am werth'. A oedd unrhyw niferoedd dangosol gan gontractwyr am gontractau, neu a oeddent wedi gofyn am unrhyw ail-drafod? Dywedodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 nad oedd ganddo wybodaeth am hyn, a byddai'n trafod y pryderon a godwyd gyda chydweithwyr er mwyn cael ateb i'r Cynghorydd Wood a'r Pwyllgor wedi'r cyfarfod hwn, a gofynnodd y Cadeirydd hefyd am wybodaeth am lithriad ar raglenni a lle'r oedd y Cyngor wedi nodi cynnydd mewn costau.

Yna, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI'r defyndd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) o'r adroddiad.

(3) NODI'r defyndd o Bwerau Argyfwng fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) BOD y newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn Argymhelliad (4) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhalen Gyfalaf, y defnydd o o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

168 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (PW) –

Yr oedd yr adroddiad perfformiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn amlinellu cynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill, 2021 hyd at 31 Mawrth, 2022) tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22) fel y maent wedi eu hasio gydag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Bwriad y cyflwyniad a atodwyd oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r perfformiad diwedd blwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Yr oedd hyn cyn yr Hunanasesiad manylach am 2021/22 y byddid yn adrodd amdano at bob Pwyllgor Craffu, Cabinet, Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'r Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Tachwedd 2022.

Yr oedd tri atodiad i'r adroddiad, gan gynnwys perfformiad o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, adrodd am eithriadau a dadansoddiad manylach o berfformiad seiliedig ar y gweithio allan llawn a'r casgliadau.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i'r 4 o Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 oedd yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma i gwrdd ag ymrwymiadau Cynllun Cyflwyno Blynyddol y Cyngor am 2021/22, er y bu ychydig bach o lithriad gyda rhai o'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig (e.e. cawsant statws Oren). Ymysg yr hyn y dylid ei nodi'n arbennig ynghylch perfformiad yr Amcanion Lles a meysydd perfformiad eraill yr oedd:

- Cynnydd ar ail-ddatblygu gwefan y Cyngor.
- Cynnydd ar amrywiaeth y dulliau a ddefnyddiwyd i ymwneud a chyfathrebu â dinasyddion lleol am wasanaethau'r Cyngor, defnyddio technoleg ddigidol, e.e. cyfryngau'r Cyngor yn estyn allan ymhellach a thwf y Gwasanaeth Bwletin trwy e-bost at drigolion.
- Mwy o ymwneud gan y Cyngor â grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig - e.e., cyfarfu'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a chynrychiolwyr er mwyn nodi camau i fwrw ymlaen â Rhwydwaith Staff y Cyngor.
- Cefnogaeth gyson y Cyngor i gymunedau lleol y Fro (yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw presennol) gan gynnwys y Tîm Cynghori Ariannol, Arwyr y Fro, grwpiau cymunedol eraill a mudiadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, yn ogystal â ffurfio grŵp 'Cyd-drafod yr Argyfwng Costau Byw' oedd yn cyfarfod i drafod anghenion y trigolion.
- Gwaith i ddad-garboneiddio ysgolion ac adeiladau eraill y Cyngor.
- Datblygu Strategaeth Lles a defnyddio pencampwyr lles.
- Mwy o ddefnydd o gyfleoedd am brentisiaethau yng ngwahanol wasanaethau'r Cyngor, fel rhan o'r agenda 16-i 24 oed.

- Bu peth llithriad cysylltiedig â COVID-19 ac am resymau heb fod yn ymwneud â COVID; byddai llithriadau yn y dyfodol yn fwy oherwydd rhesymau heb fod yn gysylltiedig â COVID.
- Datblygu strategaeth ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.
- Adroddwyd hefyd am gynnydd wrth adfer wedi'r Coronafeirws, gan gynnwys gwersi allweddol a ddysgwyd o'r pandemig, megis ail-strwythuro'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a defnyddio gweithio hyblyg / hybrid i staff y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson fater adrodd am eithriadau  natur gyson neu 'anhydrin' rhai o'r materion cysylltiedig, fel:
    - Ar adnewyddu C1V, esboniwyd y byddai hyn yn mynd allan i dendr yn y dyfodol agos, ac y bu oedi oherwydd COVID a'r angen i adolygu ei gwmpas oherwydd newid mewn arferion gwaith a'r angen i wneud lle i bartneriaid, e.e., y Gwasanaeth Iechyd.
    - Ynghylch System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, aethpwyd ag adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, am ei fod yn parhau yn 'risg' gorfforaethol; byddai detholiad o'r gofrestr risg yn cael ei anfon at yr Aelodau i ddangos sut yr oedd y risg yn cael ei rheoli.
    - Ar fater adolygu enwau adeiladau / strydoedd a chofebau, byddid yn ail-gynnull y Panel perthnasol (gydag aelodaeth newydd wedi'r etholiad).
    - Ynghylch cynnydd ar waith ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig) i helpu i adnabod datblygiadau yn y gwasanaeth a bod yn sail i hynny, byddid yn ceisio gwybodaeth gan y Gwasanaethau Plant i ddiweddaru'r Aelodau.
- Ynghylch ymholiad y Cynghorydd Loveluck-Edwards am ddadansoddiad a wnaed o deimladau'r staff am rymuso a chael 'perchenogaeth' o gwynion corfforaethol, esboniwyd na chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn y maes hwn, ond byddai'r Rheolwr Gweithredol perthnasol yn cael y dasg o edrych ar hyn ar y cyd â'r adroddiad fyddai'n cael ei gyflwyno am Gwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, ac ymlaen i'r Cabinet.
- Lleisiodd y Cadeirydd ei phryder am y gyfradd gwblhau o 60% i'r adolygiad o'r model gweithredu cysylltiadau cwsmeriaid, yn ogystal â digwyddiadau o dorri / oedi cyn datrys cwynion. Pwysleisiodd yr angen am system ganolog i drin cysylltiadau cwsmeriaid a chwynion, gan y gallai digwyddiadau o'r fath effeithio'n ddifrifol ar ganfyddiad y cyhoedd o'r modd y mae'r Cyngor yn trin cwynion. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod system ganolog ar gael ar gyfer monitro a thrin cwynion, fyddai'n symud i lwyfan technoleg newydd yn y dyfodol agos. Byddai mwy o ddadansoddi ar ddigwyddiadau o dorri / oedi ac a achoswyd y rhain gan broblemau diwylliannol / gallu ar lefel y gwasanaeth yn rhan o adrodd yn y dyfodol ar Gwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

- Ychwanegodd yr Is-Gadeirydd fod C1V yn rhan bwysig iawn o'r modd yr oedd y Cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd, ac os na fyddai'n cyfathrebu'n iawn, na fyddai gan y cyhoedd hyder yn y Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, eithriadau oedd digwyddiadau o'r fath, fod y Cyngor yn gyffredinol yn perfformio'n dda, a dymunai ddiolch i'r Cyfarwyddwr a'i staff am lunio'r adroddiad.
- Dymunodd y Cynghorydd Dr. Johnson hefyd gadarnhau y byddai'r Rheolwr Gweithredol Cysylltiadau Cwsmeriaid yn mynychu'r Pwyllgor yn y dyfodol agos i ddiweddaru'r Aelodau am y modd yr oedd C1V yn gweithredu, a'r cynnydd a wnaed wrth drin cwynion, ar foddhad cwsmeriaid, monitro perfformiad, ac ati. Gofynnodd y Cadeirydd a allai'r Rheolwr Gweithredol roi cyflwyniad am C1V a'i berfformiad, a fyddai'n arbennig o fuddiol i Aelodau newydd y Pwyllgor.

Yna, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) NODI'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.